# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 6 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 7 - Hunan Asesiad | 11 |
| Atodiad 1 | 12 |
| Atodiad 2 | 16 |
| 8 - Honiadau yn erbyn Aelodau | 17 |
| 9 - Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru | 21 |
| Atodiad | 22 |
| 10 - Cofnodion Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru 26.11.14 | 43 |
| Atodiad | 45 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**11.00am, DYDD LLUN, 20 EBRILL, 2015**

**11.00am, MONDAY, 20 APRIL, 2015**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gwyrfai,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 14/04/15*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Lesley Day
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

**Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) / Independent Members (with a vote) (5)**

Ms Linda Byrne
Ms Jacqueline Hughes
Miss Margaret E Jones
Mr David Wareing
Dr Einir Young

**Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) / Community Committee Member (with a vote) (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

*Ethol Cadeirydd.

**2. IS-GADEIRYDD**

*Ethol Is-gadeirydd.

**D.S – mae'r rheoliadau perthnasol yn nodi:-*

*"Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a all fod yn gadeirydd neu is-gadeirydd."*

*"Etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am ba un bynnag yw'r cyfnod byrraf o blith y canlynol (a) dim llai na 4 blynedd neu ddim mwy na 6 blynedd, neu (b) hyd nes bo tymor mewn swydd yr aelod annibynnol yn dirwyn i ben. Gellir ethol fel cadeirydd neu is-gadeirydd aelod annibynnol sydd wedi'i ailbenodi'n aelod o'r fath ac oedd wedi'i ethol yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd y pwyllgor yn ystod ei dymor swydd cyntaf."*

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

**7. HUNAN ASESIAD**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm)

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**10. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwyno cofnodion y Fforwm a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2014 (ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU, 26.01.15

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Lesley Day, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones a'r Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Dirprwy Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:-** Mr Sam Soysa.

Croesawyd cynrychiolwyr o Bwyllgor Safonau Cyngor Ynys Môn oedd yn bresennol i arsylwi ar y cyfarfod.

Croesawyd y Cynghorydd Lesley Day i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

Estynnwyd croeso hefyd i Rhun ap Gareth, Dirprwy Swyddog Monitro.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd) a Mr David Clay fuddiant personol yn eitem 10 ar y rhaglen – Adroddiad y Swyddog Monitro ar Ymchwiliad i Gŵyn yn Erbyn y Cynghorydd 'A' – oherwydd bod ganddynt gysylltiadau agos â rhai o'r partïon.

'Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2014 fel rhai cywir.

## 3. CEISIADAU AM ODDEFEB

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro ar geisiadau a dderbyniwyd am oddefeb mewn cysylltiad â thrafodaethau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Cyn ystyried y ceisiadau unigol, rhoddodd y Swyddog Monitro amlinelliad o'r broses trefniadaeth ysgolion.

(A) <u>Cais gan y Cynghorydd John Pughe Roberts</u>

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod y Cynghorydd John Pughe Roberts, Aelod Corris / Mawddwy ar Gyngor Gwynedd, yn gofyn am oddefeb gyffredinol, oherwydd ei rôl fel aelod lleol, i

siarad a phleidleisio mewn cysylltiad â thrafodaethau ar ad-drefnu addysg yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau.

- Bod gan y cynghorydd fuddiant yn y mater oherwydd bod ei ferch yn ddisgybl yn yr ysgol a'i chwaer yn gweithio yno.

Wrth ystyried y cais:-

- Nodwyd ei bod yn bwysig bod aelod lleol yn gallu cyfrannu at y broses, ond y dylai hynny ddigwydd o fewn y prosesau cychwynnol anffurfiol sy'n digwydd yn lleol.
- Cyfeiriwyd at benderfyniadau blaenorol mewn achosion tebyg ble caniatawyd goddefebau i aelodau â buddiant gymryd rhan yn y trafodaethau lleol yn unig ac awgrymwyd y dylid ymlynu at y cynsail a sefydlwyd eisoes fel bod y pwyllgor yn gyson yn ei benderfyniadau.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor ynglŷn ag Ysgol y Gader sy'n cael eu cynnal yn yr ardal, ond na chaiff siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddo ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y mae'n cymryd rhan ynddo ei fod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arno, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd.**

(B) Cais gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Y Bala ar Gyngor Gwynedd, yn gofyn am oddefeb gyffredinol, oherwydd ei rôl fel aelod lleol, i siarad a phleidleisio mewn cysylltiad â thrafodaethau ar ad-drefnu addysg yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala.
- Bod y cynghorydd wedi nodi bod ganddo fuddiant yn y mater oherwydd bod ei wraig yn gwneud gwaith llanw yn achlysurol yn ysgolion y dalgylch ac yn rhoi gwersi cerdd mewn ysgolion ar ran Canolfan William Mathias ac oherwydd ei fod yntau yn Llywodraethwr yn Ysgol y Berwyn.
- Nad oedd o'r farn bod y buddiannau hyn yn rhagfarnu gan nad oedd gwraig y cynghorydd yn aelod o staff parhaol unrhyw ysgol yn y dalgylch a bod y cynghorydd wedi'i benodi'n Llywodraethwr ar ran yr Adran Addysg. Gan hynny, argymhellodd nad oedd angen bwrw ymlaen â'r cais.

**PENDERFYNWYD peidio bwrw ymlaen â'r cais.**

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chynnwys '*partner'* yn y rhestr o gysylltiadau a fernir yn rhy agos i ganiatáu goddefeb o safbwynt ysgolion penodol, nododd y Swyddog Monitro mai canllawiau gan y Pwyllgor Safonau oedd yn cyfeirio at '*ŵr'* neu '*wraig'* ac y byddai cais ynglŷn â '*phartner'* neu unrhyw gais arall angen ei ystyried yn ôl ei haeddiant, ond ni fyddai ei fodolaeth neu beidio yn y canllawiau yn llyffetheirio disgresiwn y Pwyllgor.

**4. AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu'r aelodau fod tymor swydd dau o aelodau annibynnol y pwyllgor, sef Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd) a Mr Sam Soysa (Is-gadeirydd) yn dod i ben ym mis Chwefror eleni, yn dilyn gwasanaethu dau dymor, ac yn amlinellu'r camau fydd angen eu dilyn i benodi aelodau annibynnol newydd.

Diolchwyd i Mr Gwilym Ellis Evans a Mr Sam Soysa am eu cyfraniad gwerthfawr i waith a datblygiad y Pwyllgor Safonau dros nifer o flynyddoedd a dymunwyd yn dda i'r ddau yn y dyfodol.

Diolchodd Mr Gwilym Ellis Evans i'w gyd-aelodau ar y pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Mewn ymateb i gwestiynau, nododd yr Uwch Gyfreithiwr:-

- Y byddai'r hysbyseb am aelodau annibynnol newydd yn ymddangos ar Wefan, '*Twitter*' a '*Facebook*' y Cyngor.
- Nad oedd yna fwriad i roi'r hysbyseb yn y papurau bro, yn bennaf oherwydd prinder amser ac adnoddau, ond pe ceid anhawster denu ymgeiswyr, y byddai'r papurau bro yn ffordd dda o ledaenu'r neges.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 5. HYFFORDDIANT I GYNGHORAU CYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu copi o lythyr a anfonwyd at gynghorau cymuned i geisio'u barn ar gynnwys a ffurf yr hyfforddiant y gellir ei gynnig iddynt ac yn gofyn am farn y pwyllgor ar yr awgrymiadau yn y llythyr, ac unrhyw awgrymiadau eraill ynglŷn â'r math o gefnogaeth y gellir ei gynnig i gynghorau cymuned a thref.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nododd yr Uwch Gyfreithiwr y derbyniwyd tua 16 o ymatebion gan gynghorau cymuned erbyn hyn, a bod pob un ohonynt yn ffafriol i'r awgrymiadau.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd bod clerc Cyngor Tref Abermaw yn dweud nad oedd wedi derbyn y llythyr. Mewn ymateb, eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr fod yna fas data o enwau / cyfeiriadau clercod cynghorau cymuned ar wefan y Cyngor, gyda'r clercod eu hunain yn gyfrifol am hysbysu'r Cyngor o unrhyw newidiadau. Nododd y Swyddog Monitro ei fod yn derbyn y gallai fod yna fylchau yn yr wybodaeth ar brydiau a bod angen edrych ar hyn. Nodwyd hefyd bod angen gwirio bod y llythyr at Gyngor Tref Abermaw wedi ei anfon i'r person cywir.
- Holwyd a anfonwyd y llythyr at Gadeiryddion y cynghorau yn ogystal. Atebodd y Swyddog Monitro nad oedd y Cyngor yn cadw manylion cyswllt y cadeiryddion.
- Nodwyd y dylid annog pob cyngor cymuned i sefydlu cyfeiriad e-bost ac y gellid e-bostio'r cynghorau cymuned i ofyn am enw / cyfeiriad eu cadeiryddion.
- Gofynnwyd i'r swyddogion edrych beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gofyn i gynghorau cymuned sefydlu gwefannau ar y cyd neu'n unigol.
- Awgrymwyd bod angen edrych ar ryw fath o hyfforddiant i gadeiryddion hefyd ar greu a chynnal diwylliant priodol.
- Pwysleisiwyd bod darparu hyfforddiant priodol i gynghorau cymuned yn talu ar ei ganfed.
- Eglurwyd mai rôl y Swyddog Monitro oedd ceisio gwella safonau. 'Roedd yn gwneud gwaith mwy uniongyrchol gyda rhai cynghorau cymuned ond nid oedd ganddo unrhyw bŵer drostynt.
- Nodwyd, petai cynghorau cymuned yn derbyn mwy o swyddogaethau yn y dyfodol, y byddai'n rhaid sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gadarn.
- Awgrymwyd y byddai o fudd petai pob cyngor cymuned yn derbyn copi o reolau sefydlog Unllais Cymru ar gyfer cynghorau tref a chymuned.

- Nodwyd bod y clercod angen cefnogaeth gan eu bod mewn swydd eithaf unig sy'n galw am arbenigedd a chefndir mewn amrediad o feysydd gwahanol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Gan gyfeirio at ran 2.7 o'r adroddiad, nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod Achos 201403463 wedi ei gau erbyn hyn hefyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Yn wyneb buddiant y Cadeirydd yn eitem 10 ar y rhaglen, ac yn absenoldeb yr is-gadeirydd, penodwyd Dr Einir Young i gadeirio'r ddwy eitem ganlynol.

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**8. ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD 'A'**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro ar ei ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd 'A' a gofynnwyd i'r pwyllgor ddod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

Amlinellodd y Swyddog Monitro fanylion yr honiad, y cefndir cyfreithiol, yr ymchwiliad a gynhaliwyd ganddo, y ffeithiau, ei ganfyddiadau ar y ffeithiau a'i gasgliadau. Yna ymneilltuodd o'r cyfarfod.

Manylodd yr Uwch Gyfreithiwr ar y drefn i'w dilyn wrth ystyried y gŵyn.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Oherwydd amgylchiadau'r achos, awdurdodi'r Uwch Gyfreithiwr i addasu'r drefn yn yr achos hwn, er hwylustod i'r aelod sy'n destun yr ymchwiliad, drwy ofyn iddo a fyddai'n fodlon cyflwyno ei sylwadau'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad a'r honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod.**

**(b) Ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dderbynnir cyn penderfynu oes angen galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y mater.**

**(c) Cadw papurau'r achos yn gyfrinachol tan ar ôl unrhyw wrandawiad a dileu'r cyfeiriadau at unigolion pan fydd y papurau yn cael eu cyhoeddi.**

**PENDERFYNWYD ail agor y cyfarfod i'r wasg a'r cyhoedd.**

Ar derfyn y cyfarfod, nododd yr Uwch Gyfreithiwr y cynhelid Cynhadledd Safonau Cymru yng Nghaerdydd ar 20 Hydref, 2015.

Nododd y Cadeirydd y cyflwynid cofnodion cyfarfod diwethaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru i gyfarfod nesaf y pwyllgor hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.30pm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **20 Ebrill, 2014** |
| **TEITL** | **HUNAN ASESIAD** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS , SWYDDOG MONITRO** |

1. Pwrpas hunan asesiad ydi rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor ystyried sut mae'n cyflawni ei ddyletswyddau yn erbyn y swyddogaethau sydd wedi eu rhoi iddo dan y rheoliadau ac yng nghyfansoddiad y Cyngor.

2. Mae'r canlyniadau yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar raglen waith y dyfodol.

3. Cyflwynir yma ddrafft o ddogfen hunan asesu sydd wedi ei pharatoi gan y swyddogion. Mae wedi ei llunio fel bod y Pwyllgor yn cael cyfle i asesu ei waith a'i effeithiolrwydd yn erbyn y gofynion statudol a chyfansoddiadol.

4. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n gredu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

Categori 1 – Tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cyflawni'r gofynion yn llawn

Categori 2 – Tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cwrdd a'r gofynion sylfaenol ond bod modd gwneud rhagor i gwrdd yn llawn

Categori 3 – Dim tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cyflawni'r gofynion

5. Mae angen nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r categori mae'r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae'r golofn "Tystiolaeth" yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae'n bosib y bydd aelodau'r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati

6. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi'r dystiolaeth bydd yn bosib i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn a pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae'r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach. Rhain ydi'r materion fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

**ARGYMHELLIAD**
Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddrafft a chynnal hunan asesiad o'i waith.

## HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR SAFONAU 07/04/14

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | | Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.<br><br>Rhai o'r aelodau wedi mynychu pwyllgorau / cyfarfodydd Cyngor Llawn a Chabinet fel sylwebyddion.<br><br>Mae aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu hyfforddiant ar we ddarlledu cyfarfodydd. | Sefyldu rhaglen ymweld a chyfarfodydd pwyllgorau a Chyngor Llawn.<br><br>Gwahodd aelodau'r Cyngor i gyfarfodydd y Pwyllgor. |
| Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad | | Mabwysiadau ac arolygu trefn datrys leol ar gyfer Cwynion nad ydynt yn destun ymchwiliad Ombwdsman<br><br>Mabwysiadu Protocol Cyfryngau Cymdeithasol.<br><br>Adolygwyd y Protocol Cyswllt Aelod/ Swyddog. | |
| Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | | Rhoddwyd cyngor ar fabwysiadu'r Cod yn 2008<br><br>Gwnaed sylwadau i'r Gweinidog perthnasol ar adolygiad o'r Cod Ymddygiad. | |
| Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad | | Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru | Ymgorffori sylwadau'r Pwyllgor ar y wybodaeth yma yn yr Adroddiad Blynyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a datganiadau a wneir<br><br>Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch. | |
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad | | Mae'r aelodau wedi mynychu cynhadledd Safonau Cymru.<br><br>Cynhaliwyd Hyfforddiant aelodau'r Cyngor ym Mai 2012 a Gorffennaf 2013.<br><br>Darperir Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a'r Protocolau cysylltiedig fel rhan o broses anwytho aelodau newydd<br><br>Cyflwynir sesiynau hyfforddi achlysurol i aelodau'r Pwyllgor . Roedd y diwethaf ynglŷn â gwe ddarlledu yn 2014. | |
| Rhoi goddefebau i aelodau | | Mabwysiadwyd "polisi" ynglŷn â chaniatáu goddefebau.<br><br>Mabwysiadwyd trefn ar gyyfer ystyried ceisiadau am oddefebau. | |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | | Mabwysiadwyd trefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau.<br><br>Cynhaliwyd 4 gwrandawiad ers 2012 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad | | Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath | |
| Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned | | Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i glercod cynghorau cymuned yn Hydref 2013<br><br>Anfonwyd holiadur yn gwneud archwiliad o gofrestrau buddiant cynghorau cymuned<br><br>Anfonwyd holiadur yn gwneud archwiliad o gofrestrau rhoddion a lletygarwch cynghorau cymuned<br><br>Anfonir adroddiad blynyddol y Pwyllgor at yr holl gynghorau cymuned.<br><br>Canfaswiyd barn y cynghorau cymuned ar hyfforddiant yn seiliedig ar y Cod a dylanwad llywodraethu da. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Symud ymlaen I greu sesiynau hyfforddiant |

# PWYLLGOR SAFONAU, 7.04.14

**6. RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn am gymeradwyaeth y pwyllgor i raglen waith ddrafft am 2014/15.

**PENDERFYNWYD cytuno ar y rhaglen waith a ganlyn:-**

**<u>30 Mehefin, 2014</u>**

- **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**
- **Trefn cynnal gwrandawiadau**
- **Llyfr achosion yr Ombwdsmon**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**
- **Gwe ddarlledu (neu gyfarfod Medi)**

**<u>29 Medi, 2014</u>**

- **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
- **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Cyfarfod cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thrafod y posibilrwydd o gynnal un cyfarfod yn yr Hydref gyda'r cynghorau cymuned**
- **Hyfforddiant**

**<u>26 Ionawr, 2015</u>**

- **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
- **Cofrestr Buddiannau Aelodau Etholedig**
- **Trefn Datrys Anghydfod Lleol**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**
- **Ethol aelodau newydd**

**<u>20 Ebrill, 2015</u>**

- **Cyfarfod Prif Weithredwr a chynrychiolwyr o Grŵp Rheoli'r Cyngor**
- **Protocol Cyfryngau Cymdeithasol**
- **Presenoldeb aelodau mewn pwyllgorau a hyfforddiant**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Rhaglen waith y Pwyllgor**

| Pwyllgor : | PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| Dyddiad : | 20 Ebrill 2015 |
| Teitl : | Honiadau yn erbyn aelodau |
| Awdur : | Swyddog Monitro |
| Gweithredu : | Er gwybodaeth |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

**2. Cwynion**

**2.1 Achos 6141/201400682**

Dyddiad derbyn: 29/04/14

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi cam ddefnyddio ei safle er mwyn cael mantais ariannol.

**Penderfyniad**

Ombwdsmon am ymchwilio i rai agweddau o'r gwyn

**2.2 Achos 201402810**

Dyddiad derbyn: 28/07/14

**Cwyn**

Wedi anfon e-bost at fudiad lleol ar ran y cyngor cymuned ond heb ei gymeradwyaeth.

**Penderfyniad**

Cyfeirio at y Swyddog Monitro i ymchwilio ac adrodd i'r Pwyllgor Safonau. Pwyllgor Safonau i benderfynu ar y gŵyn ar 13/4/15.

**2.3 Achos 201403463**

Dyddiad derbyn: 18/07/14

**Cwyn**

Cwyn, gan aelod o gyngor tref bod tri o’i gyd-aelodau wedi methu datgan buddiant.

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau mewn perthynas ag un aelod.

**2.4 Achos 201404314**

Dyddiad derbyn: 29/09/14

**Cwyn**

Cwyn fod aelod cyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Dim tystiolaeth fod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd.

**2.5 Achos 5847/201404989 & 5847/201404990**

Dyddiad derbyn: 21/10/14

**Cwyn**

Cwyn fod aelod cyngor tref wedi ymddwyn mewn modd oedd yn dwyn anfri ar y cyngor.

**Penderfyniad**

Ystyried os am ymchwilio.

**2.6 Achos 201408375**

Dyddiad derbyn: 02/02/15

**Cwyn**

Bod aelod wedi methu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol men cysylltiad â chontract ac wedi bod yn sarhaus.  Ei fod wedi dynwared person arall ac wedi masnachu yn amhriodol drwy berson arall.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio.  Dim tystiolaeth ddigonol wedi ei ddarparu i gadarnhau'r cyhuddiad.  Nid yw'r Ombwdsmon yn ymchwilio heb dystiolaeth resymol o gryf bod aelod wedi torri'r cod.

**2.7 Achos 8136/201408378**

Dyddiad derbyn: 29/01/15

**Cwyn**

Bod aelod wedi defnyddio iaith oedd yn sarhaus a hiliol mewn e-bost yn beirniadu aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio.  Nid oedd yn ystyried fod y geiriau a ddefnyddiwyd yn hiliol yn y cyd-destun y defnyddiwyd hwy.  Serch hynny, roedd hi'n debygol y gallai eu defnydd fod yn groes i'r cod drwy fod yr aelod wedi methu dangos parch ac ystyriaeth i eraill fel sy'n ofynnol dan baragraff 4(b) o'r cod.  Wedi dweud hynny, nid oedd yr Ombwdsmon yn credu y byddai cosb yn cael ei rhoi hyd yn oed os byddai hyn yn cael ei brofi.

**2.8 Achos 201408381**

Dyddiad derbyn: 29/01/15

**Cwyn**

Bod aelod wedi anfon e-bost yn cytuno gyda chynnwys yr e-bost y cyfeirir ato yn 2.7 uchod ac felly yn euog o fod yn hiliol a sarhaus ei hun.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio.  Roedd yr aelod yn mynegi barn, ac nid oedd y modd y gwnaeth hynny yn groes i unrhyw ran o'r cod.

**2.9 Achos 8368/2014**

Dyddiad derbyn: 09/03/15

**Cwyn**

Bod aelod wedi tresmasu ar eiddo’r achwynydd, wedi dadlau ag ef ac wedi cydio yn ei fys a’i blygu /nôl.  Galwyd yr heddlu.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio.  Dim tystiolaeth bod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd. Nododd yr Ombwdsmon bod yr heddlu wedi eu galw.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **20 Ebrill 2014** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2013 - 2014** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er gwybodaeth** |

<u>Cefndir</u>

1. Bydd aelodau'n ymwybodol mai rôl Panel Dyfarnu Cymru yw ffurfio tribiwnlysoedd achos i ystyried honiadau yn erbyn aelodau o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae'r Panel yn derbyn honiadau o'r fath mewn dwy ffordd – naill ai yn uniongyrchol gan yr Ombwdsmon neu ar ffurf apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau.

2. Atodir copi o Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer y flwyddyn 2013 - 2014.

<u>Argymhelliad</u>

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Panel Dyfarnu Cymru

## Adroddiad Blynyddol

## 2013 – 2014

Ionawr 2015

ISBN digidol 978 1 4734 1776 2
© Hawlfraint y Goron 2015
WG 22442

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair | | 4 |
| Adran 1 | Amdanom ni | 5 |
| Adran 2 | Perfformiad a Datblygiad | 8 |
| Adran 3 | Ein Cwsmeriaid | 19 |
| Adran 4 | Blaenoriaethau Busnes | 20 |
| Adran 5 | Gwariant | 21 |

# Rhagair

## Gan y Llywydd J Peter Davies



Hwn yw fy unfed adroddiad blynyddol ar ddeg fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'n adroddiad ar blynyddol gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014. Gobeithio y cewch yr adroddiad yn un llawn gwybodaeth ac yn hawdd ei ddarllen.

Ein nod yw sicrhau bod y tribiwnlys yn gwasanaethu lles pawb yng Nghymru drwy gynnal safonau bywyd cyhoeddus ac ymdrin yn effeithlon ac yn effeithiol ag achosion a atgyfeirir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac apeliadau a wneir yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n rhan o'n hachosion yn fodlon bod yr anghydfodau wedi'u ddyfarnu'n deg, a hynny o fewn cyn lleied o amser ag sy'n rhesymol.

Fel y gallwch weld o'r ystadegau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'r flwyddyn adrodd hon wedi bod yn flwyddyn ddistaw, wrth i'r Ombwdsmon atgyfeirio un achos yn unig at y panel. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud dyfarniadau ar ddau atgyfeiriad arall gan yr Ombwdsmon a thair apêl yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau a gafodd eu dwyn ymlaen o'r flwyddyn adrodd flaenorol.

Ym mis Tachwedd, cynhaliodd Panel Dyfarnu Cymru ei seminar flynyddol a oedd yn gyfle i glywed yr wybodaeth ddiweddaraf a chael hyfforddiant ar faterion cyfredol, ac yn gyfle i'r aelodau drafod eu profiadau wrth ymdrin â'r achosion oedd wedi bod ger eu bron.

Croesewir unrhyw sylwadau ynglŷn â'n gwaith. Os hoffech gysylltu â ni, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys, ac mae'r manylion i'w gweld ar dudalen 7 yr adroddiad hwn.

# Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- **Cefndir**
- **Golwg Gyffredinol**
- **Aelodau'r Tribiwnlys**
- **Penodiadau**
- **Hyfforddiant a Gwerthuso**
- **Cysylltu â'r Tribiwnlys**

## Cefndir

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn banel annibynnol a sefydlwyd er mwyn penderfynu ar honiadau bod aelodau etholedig a chyfetholedig cynghorau sir, bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol Cymru, wedi torri Cod Ymddygiad statudol eu hawdurdodau.

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae dwy swyddogaeth statudol i'r Panel Dyfarnu:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu achos interim er mwyn ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon ar ôl ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod;
- ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r cod ymddygiad.

## Golwg Gyffredinol

Prif nod y Panel Dyfarnu yw:

- darparu gwasanaeth effeithlon, cost effeithiol i ddefnyddwyr y tribiwnlys a'i aelodau,
- sicrhau bod pob agwedd ar waith y tribiwnlys yn cael ei gweithredu mewn ffordd a fydd yn cyflawni dyfarniadau teg, annibynnol ac amserol,
- gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol sy'n berthnasol i Gymru.

Mae'r tribiwnlys yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cyfatebol, yr un mor effeithlon i siaradwyr Cymraeg a Saesneg sy'n defnyddio'r tribiwnlys.

Y rheoliadau canlynol sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r tribiwnlys:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000,
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001,
- Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Mewn gwrandawiad tribiwnlys, mae panel y tribiwnlys fel arfer yn cynnwys cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol, a dau arall. Gall hyn amrywio yn ôl disgresiwn Llywydd y Panel Dyfarnu. Bydd gwrandawiadau tribiwnlys yn cael eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer, ac eithrio pan fo'r tribiwnlys yn ystyried y byddai'r cyhoeddusrwydd yn niweidio buddiannau cyfiawnder, neu pan fo'r ymatebydd neu'r apelydd yn cytuno y gellir ymdrin â'r honiadau trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. Gallai fod rhesymau eraill o dro i dro dros beidio â chynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, yn gyhoeddus. Bydd gwrandawiadau fel arfer yn cael eu cynnal yn ardal yr awdurdod perthnasol. Mae trefniadau gwrandawiadau'n ystyriol o unrhyw anghenion arbennig a allai fod gan y rhai sy'n mynychu, megis mynediad i gadeiriau olwyn, cyfieithydd ar y pryd, cymorth clyw ac ati. Mae gan y sawl sy'n destun yr honiadau hawl i roi tystiolaeth a galw ar dystion.

Cyhoeddir manylion am dribiwnlysoedd, a gwrandawiadau a phenderfyniadau tribiwnlysoedd ar wefan y Panel Dyfarnu ac yn y wasg leol fel y bo'n briodol.

Gellir apelio i'r Uchel Lys ynglŷn â phenderfyniadau tribiwnlysoedd achos interim a thribiwnlysoedd achos a sefydlir gan y Panel Dyfarnu. Mae'n rhaid cael caniatâd gan yr Uchel Lys i apelio i ddechrau.

Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl ond, fel corff cyhoeddus, gellir cynnal adolygiad barnwrol o'r Panel Dyfarnu a'i dribiwnlysoedd.


Rhoddir gwybodaeth gyflawn a chyfarwyddyd ynglŷn â'r tribiwnlys a'i weithdrefnau ar wefan y Panel Dyfarnu. Fel arall, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys i gael mwy o wybodaeth neu os hoffech chi dderbyn cyhoeddiadau'r tribiwnlys mewn fformat gwahanol.

## Aelodau'r Tribiwnlys

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r Llywydd, aelodau cyfreithiol ac aelodau lleyg. Penodir aelodau ar ôl i'r swyddi gwag gael eu hysbysebu ac ar ôl cyfweliad cystadleuol gan banel a gynullir gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Y Llywydd sydd â chyfrifoldeb barnwrol dros y tribiwnlys a'i aelodau. |
| **Aelodau Cyfreithiol** | Cyfreithwyr yw'r aelodau cyfreithiol ac maent yn gyfrifol am gynnal achosion mewn gwrandawiadau a chynghori'r tribiwnlys ar faterion yn ymwneud â'r gyfraith. Bydd yr aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau'r tribiwnlys ac yn rhoi cyfarwyddiadau pan fo angen. |
| **Aelodau Lleyg** | Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith y tribiwnlys. |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Mae gweinyddiaeth y tribiwnlys o ddydd i ddydd yn cael ei dirprwyo i ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys, sy'n ymdrin â'r gwaith papur rhagarweiniol i gyd a'r gwaith o brosesu ceisiadau i'r tribiwnlys. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol a gyfyd yn ystod cyfnodau rhagarweiniol achosion cyn y gwrandawiad, ac yn anfon unrhyw ddyfarniadau a chyfarwyddiadau at y partïon yn ysgrifenedig. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer aelodau a defnyddwyr y tribiwnlys ac yn mynd i bob gwrandawiad i sicrhau bod yr achos yn mynd rhagddo'n effeithlon. |

Panel Dyfarnu Cymru




## Penodiadau

Ni phenodwyd unrhyw aelodau newydd i Banel Dyfarnu Cymru yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

## Hyfforddiant a Gwerthuso

Cynhaliwyd seminar hyfforddi i'r aelodau yn ystod mis Tachwedd 2013. Mae rhaglen reolaidd i werthuso perfformiad aelodau'r tribiwnlys wedi ei chyflawni dros flynyddoedd blaenorol. Rhagwelir y bydd y rownd nesaf o werthusiadau perfformiad aelodau'r tribiwnlys yn cychwyn yn ystod blwyddyn 2014/15.

## Cysylltu â'r Tribiwnlys

Manylion cyswllt ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru:

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad y Tribiwnlys:** | Panel Dyfarnu Cymru<br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Spa Road East<br>Llandrindod<br>Powys<br>LD1 5HA |
| **Llinell Gymorth y Tribiwnlys:** | 01597 829805 |
| **Rhif Ffacs y Tribiwnlys:** | 01597 829801 |
| **E-bost y Tribiwnlys:** | adjudication.panel@wales.gsi.gov.uk |

# Adran 2 – Perfformiad a Datblygiad

Yn yr adran hon:

- Rhifau ac ystadegau
- Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achos
- Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl
- Gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Yr hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Dribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill hyd at fis Mawrth. Cesglir yr ystadegau canlynol ynghyd:

- nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd;
- canlyniad atgyfeiriadau ac apeliadau;
- nifer yr achosion o dorri cod yn ôl eu math.


## Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd Ebrill 2013 – Mawrth 2014

Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014 atgyfeiriwyd un achos i'r Panel Dyfarnu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ymdriniwyd hefyd â dau atgyfeiriad arall a gafodd eu dwyn ymlaen o flwyddyn adrodd 2012-2013.

Ni wnaed unrhyw apeliadau i'r Panel Dyfarnu yn ystod y cyfnod hwn; fodd bynnag ymdriniwyd â thair apêl a gafodd eu dwyn ymlaen o'r flwyddyn adrodd flaenorol.

## Graff 2.1 Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd fesul blwyddyn Ebrill 2009 – Mawrth 2014


Mae'r siart isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd gan y Panel Dyfarnu dros y 5 mlynedd ddiwethaf.




a Atgyfeiriadau
b Apeliadau

## Graff 2.2 Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau y gwnaed penderfyniad arnynt fesul blwyddyn Ebrill 2009 – Mawrth 2014


Mae'r siart isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau y gwnaed penderfyniad arnynt yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.





a Atgyfeiriadau
b Apeliadau

## Graff 2.3 ac 2.4 Canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2009 – Mawrth 2014

Mae'r siart isod yn rhoi canlyniad atgyfeiriadau y gwnaed penderfyniad arnynt gan y Panel Dyfarnu dros y 5 mlynedd ddiwethaf.





Mae'r siart isod yn dangos canlyniad yr apeliadau y penderfynodd y Panel Dyfarnu arnynt dros y 5 mlynedd ddiwethaf.



## Graff 2.5 Nifer yr achosion o dorri cod yn ôl math Ebrill 2009 – Mawrth 2014

Mae'r siart isod yn dangos nifer yr achosion o dorri'r cod yn ôl y math o achos dros y 5 mlynedd ddiwethaf.




a Cod corff arall
b Peidio â dangos parch/cydraddoldeb/bwlio
c Peryglu amhleidioldeb gweithiwr
d Datgelu gwybodaeth gyfrinachol
e Cadw gwybodaeth yn ôl
f Cyflawni trosedd
g Dwyn anfri ar y swydd/yr awdurdod
h Gwneud cwynion blinderus neu faleisus
i Peidio â chydweithredu â'r Ombwdsmon
j Camddefnyddio'r swydd
k Camddefnyddio adnoddau'r awdurdod
l Peidio â gwneud penderfyniadau yn ôl teilyngdod/er budd y cyhoedd
m Peidio â rhoi sylw i gyngor swyddogion
n Peidio ag arwain trwy esiampl (darpariaeth leol)
o Peidio â datgelu buddiant a/neu adael y cyfarfod
p Peidio â rhoi sylw i gyngor y pwyllgor safonau
q Peidio â chadw at reolau hawlio treuliau

## Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achos

Cyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru un achos at y Panel yn ystod 2013-14 a chafodd dau achos eu dwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Mae crynodebau o'r tri achos y gwnaed penderfyniad arnynt gan y Panel yn ystod y flwyddyn i'w gweld isod.

## APW/005/2010-011/CT

### Cyngor Sir y Fflint

Honnwyd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth at swyddogion y Cyngor; bwlio a harasio, ceisio cyfaddawdu didueddrwydd swyddogion, ac wrth wneud hynny, ymddwyn mewn modd oedd yn debygol o ddwyn anfri ar y Cyngor.

Cafodd cwynion eu gwneud am ymddygiad y cynghorydd mewn perthynas â chyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bobl a Pherfformiad, cais am gydgyfnewid dau dŷ cyngor, cyfarfod a drefnwyd gan Uwch-swyddogion Tai Lloches, Cyfarwyddwr Cyngor Sir y Fflint, cyn, yn ystod ac ar ôl Diwrnod Gweledigaeth, sylwadau yn ymwneud â Chyfarwyddwr Cyngor Sir y Fflint a sylwadau wrth uwch-swyddog oedd hefyd yn ymwneud â Chyfarwyddwr Cyngor Sir y Fflint, cyfarfod â Swyddogion yr Awdurdod mewn perthynas â materion dyrannu tai, cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Dai Cymunedol, cyfarfodydd dethol a'r broses o benodi Pennaeth Cynllunio, cyfarfodydd dethol a'r broses o benodi Pennaeth Tai a Chyfweliad Atal Digartrefedd.

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint fel a ganlyn:

Cod Ymddygiad 2001

Ymddygiad tuag at swyddogion y Cyngor mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bobl a Pherfformiad (paragraff 4(a) – Methu dangos parch nac ystyriaeth at eraill).

Ymddygiad mewn perthynas â chydgyfnewid posibl rhwng tenantiaid tai Cyngor (paragraffau 4(a) a 4(b) – ymddygiad sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd gweithwyr cyflogedig yr awdurdod).

Ysgrifennu llythyr amhriodol at denant tŷ Cyngor (paragraff 4(a) a 6(1)(b) – dwyn anfri ar swydd aelod neu'r awdurdod).

Cod Ymddygiad 2008

Ymddygiad tuag at swyddog y Cyngor cyn Diwrnod Pennu Gweledigaeth Tai Lloches (paragraff 4(b) – Methu dangos parch nac ystyriaeth at eraill; a pharagraff 4(c) – Defnyddio dulliau bwlio a harasio tuag at unrhyw berson).

Gwneud sylwadau amhriodol am un o swyddogion y Cyngor (paragraff 4(b)).

Ymddygiad tuag at un o swyddogion y Cyngor mewn cyfarfod (paragraff 4 (b) a 4 (c)).

Ymddygiad tuag at swyddogion y Cyngor mewn cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2008 ac mewn cyfweliad digartrefedd ar 25 Chwefror 2009 (paragraff 4(b)).

Ymddygiad tuag at swyddogion y Cyngor mewn cyfarfod dethol Pennaeth Tai ar 12 Chwefror 2009 (paragraff 4(b)).

Ymddygiad tuag at swyddogion y Cyngor mewn cyfarfodydd dethol Pennaeth Cynllunio (paragraff 4(b) a 4(c)).

Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad na thorrodd y cynghorydd y Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

Cod Ymddygiad 2001

Sylwadau a wnaed am Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion y Cyngor mewn cyfarfod Trosolwg a Chraffu ar Bobl a Pherfformiad (paragraff 4 (a)).

Ysgrifennu llythyr amhriodol at denant tŷ Cyngor (paragraff 7 (a) – defnyddio eich swydd mewn modd amhriodol i roi mantais neu anfantais i unrhyw berson.

Cod Ymddygiad 2008

Ymddygiad tuag at un o swyddogion y Cyngor mewn Diwrnod Pennu Gweledigaeth Tai Lloches (paragraff 4(b), 4(c) a 6(1)(a – dwyn anfri ar swydd aelod neu'r awdurdod).

Sylwadau a wnaed am un o swyddogion y Cyngor (paragraff 4(b)).

Ymddygiad tuag at un o swyddogion y Cyngor mewn cyfarfod (paragraff 4(d) – ymddygiad sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd gweithwyr y Cyngor).

Ymddygiad tuag at swyddogion y Cyngor mewn cyfarfodydd dethol Pennaeth Tai ar 18 a 19 Chwefror 2009 (paragraffau 4(b) a 4(c)).

Ymddygiad tuag at swyddogion y Cyngor mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Dai a'r Gymuned (paragraffau 4(b) a 4(c)).

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid anghymhwyso'r cynghorydd am 2 flynedd a 6 mis rhag bod na dod yn aelod.

Mae'r Gorchymyn a wnaed gan yr Uchel Lys ar 20 Awst 2013 i atal yr anghymwysiad a osodwyd gan y Tribiwnlys Achos ar 19 Gorffennaf 2013 wedi cael ei ddirymu gan yr Uchel Lys gan Orchymyn dyddiedig 5 Medi 2013.

Apeliwyd yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys Achos i'r Uchel Lys. Gwrthododd yr Uchel Lys yr apêl mewn perthynas â chanfyddiadau'r tribiwnlys achos o ran torri'r cod ymddygiad, ac eithrio tri chanfyddiad o dorri cod ymddygiad a ddiddymwyd. Lleihaodd yr Uchel Lys y gosb o anghymhwyso o ddwy flynedd a hanner i ddeunaw mis – Cyf: [2014] EWHC 1504 (Gweinyddu).

Gallwch ddarllen yr achos hwn ar wefan Sefydliad y Gyfraith ym Mhrydain ac Iwerddon.

## APW/008/2012-013/CT

## Cyngor Sir Ceredigion

Honnwyd bod y cynghorydd wedi gor-hawlio costau teithio dros gyfnod o 11 mlynedd. Mewn ymchwiliad gan y Cyngor yn 2010, canfuwyd bod y cynghorydd wedi gor-hawlio costau teithio fel Aelod ac fel Cadeirydd y Cyngor. Ad-dalodd y cynghorydd yr arian i'r Cyngor.

Ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos ac yn arbennig y ffaith bod y cynghorydd wedi ad-dalu'r costau a gafodd eu gor-hawlio yn brydlon pan gofynnwyd iddo. Ystyriodd y Tribiwnlys Achos hefyd y ffaith bod y Cyngor wedi cyfaddef bod ei weithdrefnau yn ystod y cyfnod perthnasol mewn perthynas â threuliau'r cynghorydd, yn is na'r safonau y mae hawl gan y cyhoedd i'w disgwyl.

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylai'r cynghorydd gael ei wahardd am dri mis rhag bod neu ddod yn aelod o Gyngor Sir Ceredigion neu unrhyw awdurdod perthnasol arall sy'n dod o dan ddiffiniad Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## APW/001/2013-014/CT

## Cyngor Tref Llandrindod

Honnwyd bod y cynghorydd wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn harasio'r achwynydd. Cynhaliodd y cynghorydd arolwg o aelodau'r cyhoedd oedd yn cynnwys disgrifiad o ddigwyddiadau a oedd yn ymddangos eu bod yn cyhuddo'r achwynydd ar gam o gyflawni trosedd rywiol yn erbyn person ifanc dan oed. Achosodd hyn niwed sylweddol i enw da'r achwynydd a'i orfodi i siarad yn gyhoeddus am fater preifat hanesyddol.

Roedd y mater hwn a'r hysbysiad Gwybodaeth yr Heddlu dilynol a roddwyd i'r cynghorydd gan yr heddlu wedi cael llawer o sylw yn y wasg leol. Dywedodd y cynghorydd ei fod wedi cynnal yr arolwg oherwydd iddo deimlo bod yr achwynydd wedi torri'r Cod Ymddygiad, fodd bynnag, ni wnaeth adrodd am hyn wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ymddiswyddodd y cynghorydd a gwrthododd gymryd rhan yn yr ymchwiliad.

Ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos. Nodwyd mai dim ond am bum mis roedd y cynghorydd wedi bod yn gynghorydd tref ond iddo gael hyfforddiant ar y cod ac roedd yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau. Roedd yn poeni'n fawr bod y cyn-gynghorydd wedi parhau i ymddwyn yn y fath fodd, er gwaetha'r ffaith iddo gael cyngor clir gan y Swyddog Monitro a'r Heddlu nad oedd cyfiawnhad na sail resymol dros wneud y gwyn. Roedd y camau a gymerodd wedi'u rhag-gynllunio, ac er gwaetha'r ffaith iddo gael dau rybudd gan yr heddlu, aeth ymlaen i gynnal ei arolwg. Yn ystod yr ymchwiliad dilynol, methodd â chydweithredu ac nid yw erioed wedi ymddiheuro nac wedi dangos unrhyw ddealltwriaeth o ganlyniadau posibl ei weithredoedd.

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylai'r cyn-gynghorydd tref gael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o Gyngor Tref Llandrindod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall sy'n dod o dan ddiffiniad Deddf Llywodraeth Leol 2000 am dair blynedd.

## Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl

Cafwyd tri gwrandawiad yn y tribiwnlys apêl yn ystod y flwyddyn adrodd. Isod, ceir crynodeb o'r tri achos y penderfynwyd arnynt gan y Panel.

## APW/009/2012-013/AT

## Cyngor Cymuned y Mwmbwls

Daeth yr is-bwyllgor i'r casgliad fod ymddygiad y cynghorydd mewn perthynas â datganiadau camarweiniol a wnaeth am ei asedau i Dribiwnlys Cyflogaeth wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod, gan ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel Cynghorydd ac ar Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

Dywedodd y cynghorydd nad oedd wedi camarwain y Tribiwnlys Cyflogaeth ac nad oedd yn derbyn y canfyddiadau a wnaed. Ailadroddodd ei ddatganiad nad oedd yn ystyried bod y Cod yn gymwys i'w ymddygiad yn ei fywyd preifat.

Dywedodd y cynghorydd nad oedd erioed wedi derbyn unrhyw sylw negyddol am y mater, a'i fod wedi cael ei ail-ethol. Dywedodd y cynghorydd nad oedd yn gallu gweld sut roedd wedi dwyn anfri ar yr awdurdod na'r swydd.

Dadleuwyd bod ymddygiad cynghorydd yn destun mwy o graffu ac y gellid bod wedi ystyried ymddygiad y cynghorydd yn anonest ac yn gelwyddog gan unrhyw un fyddai'n darllen yr erthyglau. Yn yr erthygl, nodwyd bod y cynghorydd yn Gynghorydd Tref yn y Mwmbwls a bod y cysylltiad hwn wedi cael effaith niweidiol ar enw da'r awdurdod hwnnw. Dywedodd cynrychiolydd yr Ombwdsmon ei bod yn ofynnol i'r cynghorydd lynu wrth y Cod ac y dylai fod wedi cymryd camau i ymgyfarwyddo â'i rwymedigaethau.

Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad fod y canfyddiadau a wnaed gan y Tribiwnlys Cyflogaeth bod y cynghorydd wedi methu â datgelu asedau a'r erthygl yn y South Wales Evening Post, yn ddigon i ddwyn anfri ar swydd Cynghorydd Cymuned ac ar Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

Ni dderbyniodd y Tribiwnlys ddatganiadau'r cynghorydd nad oedd y Cod yn gymwys dan yr amgylchiadau hyn. Roedd y ddogfen a gyflwynwyd gan y cynghorydd yn y gwrandawiad yn egluro'r farn hon ac yn cyfeirio at God Ymddygiad 2008 a phryd mae'r Cod yn gymwys. Roedd tudalen 4 y ddogfen honno yn nodi, mewn perthynas ag ymddygiad sy'n ddigon i ddwyn anfri ar swydd neu awdurdod, bod y cod yn gymwys drwy'r amser. Nid oedd y Tribiwnlys o'r farn y dylai fod unrhyw amheuaeth gan y cynghorydd ynghylch yr hyn oedd yn ofynnol ganddo. Penderfynodd y Tribiwnlys fel mater rhagarweiniol fod y Cod yn gymwys.

Yn unol â hynny, penderfynodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol i gefnogi penderfyniad y Pwyllgor Safonau bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

## APW/004/2012-013/AT

### Cyngor Cymuned Pentyrch

Honnwyd bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Pentyrch drwy fethu dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill; defnyddio dulliau bwlio a harasio person arall; a methu datgan buddiannau personol a rhagfarnus mewn perthynas â materion gerbron y Cyngor.

Mewn perthynas â'r gosb, nododd y cynghorydd nad ef oedd yr unig barti oedd ar fai; roedd y clerc a'r achwynydd wedi dangos agwedd fawreddog. Dywedodd, os oedd bai arno ef byddai'n derbyn hynny, ond teimlai y dylai'r clerc a'r achwynydd dderbyn cyfrifoldeb hefyd. Nid oedd bellach yn dymuno gwasanaethu, ac nid yw bellach yn aelod.

Penderfynodd Tribiwnlys yr Apêl yn unfrydol fod y cynghorydd, drwy ei weithredoedd, wedi torri paragraffau 4(b), 4(c), 11(1) ac 14(1)(a) o'r Cod Ymddygiad, a chefnogwyd penderfyniad y Pwyllgor Safonau yn unfrydol, y dylai'r cynghorydd gael ei geryddu.

## APW/006/2012-013/AT

### Cyngor Gwynedd

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd drwy nodi honiadau di-sail ar ei flog, bod yr achwynydd yn bwriadu ymddeol cyn hir, fel pennaeth ysgol, a sefyll mewn etholiad i'r Cyngor mewn sedd a oedd yn cael ei dal gan gynghorydd arall.

Roedd yr achwynydd wedi nodi nad oedd yr honiadau'n wir, ac wedi cwyno bod y cynghorydd wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad (dwyn anfri ar swydd y cynghorydd neu'r awdurdod) drwy wneud honiadau di-sail yn erbyn person oedd ar gyflogres y Cyngor, ac wedi torri paragraff 7(a) (defnyddio neu geisio defnyddio swydd fel cynghorydd i greu anfantais i berson arall) drwy wneud sylwadau di-sail oedd â'r potensial i roi'r achwynydd dan anfantais sylweddol yn broffesiynol.

Mae'n werth nodi bod yr Ombwdsmon wedi cael anawsterau mawr yn ystod ei ymchwiliad i gael atebion, a rheini'n brydlon, gan y cynghorydd. Hyd yn oed ar ôl ystyried y ffaith anffodus bod y cynghorydd wedi cael llifogydd yn ei gartref, a oedd wedi effeithio ar ei allu i adolygu ei bapurau, roedd ei amharodrwydd i ymateb a hynny'n brydlon i geisiadau a gohebiaeth a anfonwyd ato mewn perthynas â'r gŵyn yn ei erbyn a'r archwiliad, yn dangos diystyrwch bwriadol o'r broses.

Daeth y Tribiwnlys Apêl i'r casgliad unfrydol y dylai apêl y cynghorydd gael ei gwrthod. Roedd y Tribiwnlys Apêl yn fodlon nad oedd sail teilwng i'r apêl a gyflwynwyd gan y cynghorydd. Nid oedd y sylwadau ar y blog yn wir ac nid oedd sail iddynt, ac roeddent yn sylwadau personol yn erbyn yr achwynydd, ac nid yn rhai gwleidyddol. Roedd y sylwadau yn ymwneud â chyflogaeth yr achwynydd a gallent fod wedi niweidio ei berthynas â'i gyflogwr a'r bobl yn yr ysgol lle roedd yn gweithio.

Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol y dylai penderfyniad y Pwyllgor Safonau gael ei dderbyn. Dylai'r cynghorydd gael ei wahardd am dri mis rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd. Yn ogystal â hynny, dylai ymddiheuro i'r achwynydd a chael hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, yn unol â chais y Pwyllgor Safonau. Mae'r Tribiwnlys Apêl hefyd yn argymell y dylai gael hyfforddiant ar ddogfen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfryngau cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2013.

## Rhagor o wybodaeth

Mae copïau o bob penderfyniad a wneir gan dribiwnlysoedd achos, achos interim ac apeliadau ar gael ar wefan Panel Dyfarnu Cymru yn y cyfeiriad isod.
www.pdc.cymru.gov.uk

## Gwrandawiadau

Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014, aeth tri atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a thair apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgorau safonau, ymlaen i wrandawiad ger bron y tribiwnlys. Cynhaliwyd gwrandawiadau tribiwnlys am gyfanswm o ddeuddeg diwrnod yn ystod y cyfnod hwn (roedd chwech o'r dyddiau hynny yn ymwneud ag un achos tribiwnlys cymhleth).

## Apeliadau pellach

Caniateir gwneud ceisiadau am hawl i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar sail nifer gyfyngedig o resymau. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd un cais ei gyflwyno a'i ganiatáu.

## Yr hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n mesur dwy agwedd allweddol ar ein gwaith; effeithlonrwydd ein gwasanaeth, a'i ansawdd trwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur effeithlonrwydd ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o brif ddangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu achos – o'i dderbyn i'r Gwrandawiad neu'r penderfyniad.

Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd sy'n deillio o holiaduron a gynhelir o dro i dro ymhlith defnyddwyr tribiwnlys.

### Effeithiolrwydd ein gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Targed: 95% o'r achosion yn cael eu derbyn neu ymholiad cyn-derbyn yn cael sylw o fewn 10 diwnod gwaith | → Cyrraedd y targed mewn 100% o'r achosion |
| Targed: anfon 100% o hysbysiadau gwrandawiad at yr ymatebydd/apelydd o fewn 15 diwrnod i'r gwrandawiad | → Cyrraedd y targed mewn 100% o'r achosion |
| Targed: anfon 100% o hysbysiadau gwrandawiad at dystion o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad. | → Cyrraedd y targed mewn 100% o'r achosion |
| Targed: cyhoeddi 90% o benderfyniadau rhesymedig o fewn 30 diwnod i'r gwrandawiad. | → Cyrraedd y targed mewn 83% o'r achosion |
| Targed: rhyddhau 75% o achosion o fewn 6 mis. | → Cyrraedd y targed mewn 17% o'r achosion |

### Cwynion

Ni dderbyniodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y flwyddyn adrodd.

# Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad defnyddwyr y tribiwnlys

## Arolwg boddhad defnyddwyr y tribiwnlys

Mae ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys yn ymdrechu i wella'r modd y darperir gwasanaeth i ddefnyddwyr y tribiwnlys ac mae'n ceisio rhoi ein defnyddwyr wrth wraidd popeth y byddwn yn ei wneud.

Mae ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys wedi sefydlu arolwg boddhad yn ddiweddar ar gyfer defnyddwyr y tribiwnlys. Bydd canlyniadau'r arolwg yn fodd inni ddeall anghenion ein defnyddwyr yn well, a bwrw goleuni gwerthfawr ar yr hyn y mae ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys yn ei wneud yn dda, yn ogystal ag amlygu'r meysydd hynny y mae angen i ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys eu gwella.

Lansiwyd yr arolwg ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gyda 4 arolwg yn cael eu dosbarthu. Hyd yn hyn nid ydym wedi derbyn unrhyw ffurflenni wedi eu llenwi. Bydd crynodeb o'r adborth a dderbynnir yn cael ei gyhoeddi yn adroddiadau'r dyfodol.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- **Blaenoriaethau Busnes 2014-2015**

Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn parhau i ddatblygu er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni trwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau Busnes 2014-2015:

- cyhoeddi a chynnal gwefan newydd i'r tribiwnlys a monitro adborth rhanddeiliaid ar gynnwys y wefan,
- cynllunio a chynnal cynhadledd hyfforddi ar gyfer yr aelodau i gyd,
- gweithredu rownd newydd o werthusiadau perfformiad ar gyfer aelodau'r tribiwnlys,
- parhau i gyflwyno gwasanaeth effeithlon, gan sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni a bod arolygon boddhad cwsmeriaid yn cael eu cynnal a'u monitro.

# Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- **Gwariant 2013-2014**

## Gwariant 2013 – 2014

| | |
|---|---|
| Ffioedd a threuliau'r aelodau | £50,000 |
| Costau lleoliad | £12,000 |
| Costau cyhoeddi (penderfyniadau'r tribiwnlys) | £16,000 |
| Costau recordio sain, cynadledda dros y ffôn a thrawsgrifiadau (gwrandawiadau'r tribiwnlys) | £6,000 |
| Costau cyfreithiol | £2,000 |
| CYFANSWM | £86,000 |

Wedi ei dalgrynnu i'r £1,000 agosaf

**COFNODION O GYFARFOD FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, CYNGOR SIR YNYS MÔN AR DDYDD MERCHER 26 TACHWEDD 2014**

**PRESENNOL:-**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br>Robyn Jones (Dirprwy Swyddog Monitro)<br>Awena Walkden (Cyfreithwraig i'r Swyddog Monitro) |
| Conwy | Howie Roberts (Cadeirydd) |
| Sir y Fflint | Edward Hughes (Cadeirydd)<br>Robert Dewey (Is-Gadeirydd) |
| Gwynedd | Iwan Evans (Swyddog Monitro)<br>Sion Huws (Swyddog Priodoldeb) |
| Wrecsam | Ceri Nash (Is-Gadeirydd) |
| Parc Cenedlaethol Eryri | David Vaughan (Cadeirydd) |
| Awdurdod Tân ac Achub | Jane Eyton-Jones (Cadeirydd) |
| Sir Ddinbych | Ian Trigger (Cadeirydd)<br>Gary Williams (Swyddog Monitro) |

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran Sioned Wyn Davies (Wrecsam), Trevor Coxon (Wrecsam), John Roberts (Conwy), Gareth Owens (Sir y Fflint), Gwilym Ellis Evans (Gwynedd), Sam Soysa (Gwynedd), Y Parch. Wayne Roberts (Sir Ddinbych) a Lisa Jones (Sir Ddinbych).

2. **COFNODION**

   Cyflwynwyd i'w cymeradwyo, gofnodion y cyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2014.

   **PENDERFYNWYD: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2014 fel rhai cywir.**

3. **CWESTIYNAU I'R OMBWDSMON.**

   Roedd yr Ombwdsmon, Mr. Nick Bennett, yn bresennol i ymateb i gwestiynau gan Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru. Mae copi o'r cwestiynau a'r atebion wedi ei atodi i'r cofnodion hyn.

DRAFT

## 4. SESIWN AGORED AR GYFER EITEMAU O DDIDDORDEB CYFREDOL

Cafwyd cyflwyniad gan Mike Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ac Awena Walkden, Cyfreithwraig i'r Swyddog Monitro ar yr hyfforddiant a roddwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn i Glercod Cynghorau Cymuned yr ynys. Eglurwyd i'r Fforwm:-

1. Bod y sesiwn hyfforddi ar gyfer Clercod Cynghorau Cymuned wedi cael derbyniad da a bu'r atborth yn gadarnhaol er gwaethaf eu cyndynrwydd i fynychu ar y cychwyn.
2. Eglurwyd i'r Clercod ei fod yn rhan o'u swyddogaeth i ddeall y Côd Ymddygiad ac i gynghori Cynghorwyr Cymuned; bu hyn o gymorth i'w hannog i fynychu'r sesiynau hyfforddi.
3. Dylai hyfforddiant ar gyfer Clercod Cyngor Cymuned ostwng nifer y cwynion a gyflwynir i'r Ombwdsmon mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned oherwydd dylai Clercod deimlo'n fwy hyderus i ddelio â materion, neu o leiaf i ddirnad y materion a gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro yn eu cylch.
4. Roedd y rhan fwyaf o Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned yn bresennol.
5. Roedd yr atborth o'r hyfforddiant yn gadarnhaol iawn ac mae wedi arwain at berthynas agosach rhwng y Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Clercod a dylai hynny, yn ei dro, arwain at ddelio â materion cyn iddynt ddatblygu i fod yn gŵyn.

**PENDERFYNWYD: Bod Awena Walkden yn anfon copi o'r pecyn hyfforddiant i'r Fforwm er gwybodaeth ac yn darparu diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r hyfforddiant i'r Fforwm yn ei gyfarfod nesaf.**

## 5. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Byddai Sian Harland o Gyngor Sir Conwy yn trefnu dyddiad addas ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm yng Nghyngor Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD: Sian Harland i gysylltu â Gary Williams mewn perthynas â threfnu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am

DRAFT

## Cwestiynau ac Atebion gan yr Ombwdsmon

| Cwestiwn | |
|---|---|
| 1 | Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn caniatáu ar gyfer ffurfio Pwyllgorau Safonau rhanbarthol. Pan fydd y rheoliadau yn eu lle, sut mae'r Ombwdsmon yn awgrymu y dylid ymarfer y pŵer hwn ymysg Awdurdodau Gogledd Cymru. Beth yw'r amserlen gyfredol ar gyfer gweithredu'r pŵer hwn?<br>**Michael Wilson (Cadeirydd) – Ynys Môn**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Gweithiais ar y Comisiwn Williams ac rwy'n gefnogwr cryf o gydweithio yn y sector cyhoeddus. Rwy'n cefnogi ffurfio'r Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol ac rwy'n credu mai dyna'r ffordd ymlaen. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar gyflwyno rheoliadau yn y flwyddyn nesaf ond nid oes gennyf amserlen ar gyfer hynny. |
| 2 | Pam fod achosion a dderbynnir gan yr Ombwdsmon yn cymryd cymaint o amser i'w hymchwilio?<br><br>Diau fod gan aelod sydd wedi ei gyhuddo o gamymddwyn hawl i ddisgwyl y bydd yr honiad(au) yn cael sylw ac a gwneir penderfyniad mor fuan ag sy'n bosibl?<br><br>Mae yna hefyd ddiddordeb cyhoeddus i etholwyr gael gwybod mor fuan ag sy'n bosibl p'un a yw eu cynrychiolwr a etholwyd yn ddemocrataidd wedi torri'r côd ymddygiad.<br>**John Roberts (Is-Gadeirydd) - Conwy**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Os oes problem gyda'r amserlen ar gyfer delio gyda chwynion byddaf yn edrych ar hynny. Mae yna graff yn Adroddiad Williams o'r enw "y graff gwae" sy'n dweud bod y galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu tra bod y gyllideb yn gostwng.<br><br>Ni fu cynnydd enfawr yn nifer y cwynion Côd Ymddygiad a dderbyniwyd. Mewn gwirionedd mae'r nifer wedi gostwng. Fodd bynnag, mae hynny'n newid yn ystod blynyddoedd etholiad pan fo niferoedd y cwynion yn codi. Y broblem sydd gennym yw gyda chwynion blinderus. Mae angen i ni sicrhau nad ymchwilir i gwynion blinderus a'u bod yn cael eu taflu allan cyn gynted ag y bo modd.<br><br>Rydym yn cael ein cyllido gan arian y trethdalwyr ac rydym hefyd yn ymchwilio i fethiannau bywyd neu farwolaeth yn y GIG ac rydym yn credu bod gan y cyhoedd mwy o ddiddordeb yn yr achosion hynny na chwynion blinderus ynglŷn â materion Côd Ymddygiad.<br>Mae ystadegau o ran yr amserlenni ar gyfer delio gyda chwynion codau |

| | |
|---|---|
| | ymddygiad fel a ganlyn:-<br><br>**1.** Yn 81% o'r achosion rydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio ai peidio cyn pen 4 wythnos.<br>**2.** Ymchwilir i 85% o'r cwynion sy'n symud ymlaen i'r cam ymchwilio cyn pen 9 mis.<br>**3.** Dim ond 15% sy'n cymryd mwy na 9 mis.<br><br>Fodd bynnag, os bydd modd i ni wneud gwelliannau pellach o ran yr amser a gymer i ddelio gyda chwynion, byddwn yn gwneud hynny. Ni allwn wneud dim i gyflymu'r amserlenni sydd gan Banel Dyfarnu Cymru na rhai'r Pwyllgorau Safonau oherwydd eu bod y tu allan i'n rheolaeth. Rwy'n dymuno cyflwyno trydydd prawf i'w ychwanegu at fy mhrawf dau gam sef "a oes budd i'r cyhoedd o ymchwilio i'r gŵyn?" Mae'n gwneud synnwyr y dylid rhoi o'r neilltu unrhyw fater nad yw er budd y cyhoedd. Nid wyf yn dweud ein bod am wneud llai o waith, rydym am wneud mwy, ond ni fedrwn wastraffu arian trethdalwyr yn ymchwilio i gwynion blinderus. |
| 3 | Mewn llythyr i'r Ombwdsmon gan Gadeirydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru (FfPSGC) gofynnwyd:-<br><br>(i) A fyddai'r Ombwdsmon yn barod i ddarparu cyfarwyddyd ar sancsiynau wedi'u teilwrio'n benodol i anghenion a phwerau pwyllgorau safonau yn hytrach na cheisio cymhwyso rhannau perthnasol o gyfarwyddyd y Panel Dyfarnu; a<br>(ii) Ystyriwyd bod yr argraffiad cyntaf o "Lyfr Achos Côd Ymddygiad yr Ombwdsmon" yn ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, mae FfPSGC yn ystyried y byddai'n fwy defnyddiol byth pe gellid cyhoeddi crynodebau o achosion unwaith y byddant wedi dod i ben, efallai ar wefan yr Ombwdsmon? Gofynnwyd a oedd yn bosibl gwneud hyn ai peidio neu fel arall, a allai crynodebau o'r achosion gael eu cyhoeddi'n chwarterol?<br><br>Cafwyd ymatebion negyddol i bob cais gan y cyn Ombwdsmon. A yw'r Ombwdsmon presennol yn barod i ail-drafod y materion hyn ac os nad ydyw, a fedr ehangu ar y rhesymeg y tu cefn i benderfyniad ei ragflaenydd.<br>**Ian Trigger (Cadeirydd) – Sir Ddinbych**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Nid oes gennym yr adnoddau i gyhoeddi llyfr achosion misol ond efallai y bydd modd i ni gyhoeddi gwybodaeth am achosion ar y wefan cyn gynted ag y maent yn fyw.<br><br>Mewn perthynas â'r canllawiau ynghylch cosbau, nid wyf wedi trafod y mater gyda fy rhagflaenydd ond nid wyf wedi fy narbwyllo bod problem gyda chysondeb cosbau gan Bwyllgorau Safonau ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth y gallwn ei ystyried os ydych yn credu y byddai'n ddefnyddiol. |
| 4 | Yng Nghyfarwyddyd yr Ombwdsmon ar Brotocolau Datrysiad Lleol (tudalen 6 y cyfarwyddyd i'r côd) crybwyllir bod disgwyl i Gynghorau Sir weithredu gweithdrefnau datrysiad lleol i roi sylw i gwynion lefel isel a bod: **"y peirianwaith hwn yn cael ei fabwysiadu gan y prif gynghorau i ddechrau ond rwyf yn** |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | **gefnogol i ymestyn hyn i gynnwys Cynghorau Cymuned yn y man".**<br><br>Yn ôl hyn, rhagwelir y bydd disgwyl i Gynghorau Sir weithredu protocolau datrysiad lleol mewn anghydfodau mewn cynghorau cymuned? Fel arall, a yw'r Ombwdsmon yn rhagweld y dylai protocolau o'r fath gael eu mabwysiadu gan y Cynghorau Cymuned eu hunain a'u gweithredu gan y cynghorau hynny? Pe na bai'r trefniadau hyn a ragwelir yn cael eu "ehangu" a yw'r Ombwdsmon yn credu y dylai Pwyllgorau Safonau gymryd rôl weithredol o ran datrys mân-gwynion gyda Chynghorau Tref a Chymuned cyn iddynt gael eu huwchgyfeirio i'r Ombwdsmon?<br>**Edward Hughes (Cadeirydd) – Sir y Fflint**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Ar hyn o bryd mae 50% o'r cwynion Côd Ymddygiad yn dod o Gynghorau Cymuned.<br><br>Mewn cynhadledd a gynhaliwyd gan Un Llais Cymru yn ddiweddar, roedd cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned yn awyddus, fe ymddengys i ymestyn y Protocol Datrysiadau Lleol i Gynghorau Cymuned. Fodd bynnag, ymddengys bod Swyddogion Monitro yn llai awyddus i wneud hynny.<br><br>*Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ar gyfer Cyngor Gwynedd nad yw wedi ei ddarbwyllo bod capasiti i ddelio gyda Phrotocolau Datrysiadau Lleol y Cynghorau Cymuned, un ai o fewn y Cyngor neu yn y Cynghorau Cymuned eu hunain, a hynny oherwydd y cyfyngiadau amser ar y Clerc. Fodd bynnag, gall cyflwyno prawf budd cyhoeddus gynorthwyo i ostwng nifer y cwynion gan Gynghorau Cymuned.* |
| 5 | Ceir ar ddeall y bydd yr Ombwdsmon yn cyhoeddi cyfarwyddyd newydd ar y côd ymddygiad (yn arbennig yng ngoleuni Calver). All yr Ombwdsmon roi unrhyw syniad ynglŷn â pha bryd y bydd y cyfarwyddyd newydd hwn ar gael a hefyd ddarparu ychydig o wybodaeth ynglŷn â'r amserlen ar gyfer ymgynghori ar unrhyw ddrafft?<br>**David Vaughan (Cadeirydd) – Parc Cenedlaethol Eryri**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Mae'r Canllawiau ar y Côd Ymddygiad wedi eu diwygio yn wyneb Calver ond bydd angen edrych arnynt unwaith eto o ganlyniad i'r dyfarniad Heesom, a'r ffaith ein bod yn dymuno cyhoeddi prawf budd cyhoeddus newydd. |
| 6 | Yn ein Polisi Chwythu'r Chwiban, rydym yn cyfeirio at yr Ombwdsmon fel rheolydd y gall gweithiwr siarad ag ef/hi ynglŷn â'u pryderon. A oes gan yr Ombwdsmon rôl yma? Os felly, pa fath o gwynion chwythu'r chwiban ddylai fod yn rhan o gylch gorchwyl yr Ombwdsmon? A ddylid dileu hyn o'n polisi?<br>**Michael Wilson (Cadeirydd) – Ynys Môn**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Nid wyf yn rheoleiddiwr ond wrth gwrs rwy'n fodlon derbyn cwynion chwythu'r chwiban sy'n ymwneud â'r Côd Ymddygiad a thorri'r côd. |
| 7 | Pa ganran o gwynion a dderbynnir gan yr Ombwdsmon a ymchwilir iddynt gan |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | yr Ombwdsmon ac a gyfeirir gan yr Ombwdsmon i'r Pwyllgor Safonau / Panel Dyfarnu, sy'n gwynion gan Gynghorau Cymuned yn hytrach nag awdurdodau unedol? Y pryder yw y bydd y cyhoedd yn gweld y gair "Cynghorydd" gan fethu â gwneud y gwahaniaeth rhwng Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned.<br>**Robert Dewey (Cadeirydd) – Sir y Fflint**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Mae 50% o'r cwynion a gawn yn dod o Gynghorau cymuned; ymchwilir i 15% o'r rheini ac mae 5% yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau.<br><br>Mewn perthynas â'r 50% o gwynion geir yn erbyn Cynghorwyr Sir ymchwilir i 19% o'r rheini ac mae 1% yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau. |
| 8 | Mewn achos lle mae'r Ombwdsmon yn cyfeirio mater i Bwyllgor Safonau am wrandawiad a phwnc y cyfeiriad yn golygu bod gwrthdaro ddiddordeb i Adain Gyfreithiol y Cyngor ei hun, beth (os o gwbl) yw barn yr Ombwdsmon ynglŷn â phwy ddylai ddarparu'r cyngor cyfreithiol i'r Pwyllgor Safonau?<br>**Ian Trigger (Cadeirydd) – Sir Ddinbych**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Rwy'n credu y dylai awdurdodau cyfagos gynorthwyo.<br><br>Derbyniwyd o fewn y Pwyllgor y bydd y gwasanaethau cyfreithiol yn cynorthwyo ei gilydd os oes modd ond gallai hynny fod yn anodd ar faterion penodol oherwydd graff gwae pob Cyngor unigol. |
| 9 | Sut mae'r Ombwdsmon yn datblygu ei rôl mewn perthynas â'r côd ymddygiad? A oes ganddo unrhyw gynlluniau newydd mewn golwg?<br>**John Roberts (Is-Gadeirydd) – Conwy**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau newydd mewn golwg ond rwy'n dymuno ychwanegu trydydd prawf budd cyhoeddus a byddaf yn darparu canllawiau syml ar ddiddordebau personol a rhagfarnus. |
| 10 | Ysgrifennodd FfPSGC i Un Llais Cymru yn gynharach y flwyddyn hon yn gofyn am gefnogaeth i Gynghorau Cymuned allu datblygu cynnwys moesegol eu gwefannau pan ddaw hyn yn anghenraid statudol (gweler y llythyr ynghlwm). Nid ydym wedi cael unrhyw ymateb hyd yn hyn. Pa gymorth fydd yr Ombwdsmon yn ei ddarparu i Gynghorau Cymuned ar y mater hwn?<br>**Edward Hughes (Cadeirydd) – Sir y Fflint**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Hoffwn weld copi o unrhyw ymateb a gewch gan Un Llais Cymru ar hyn gan y byddai gennyf ddiddordeb yn eu sylwadau. Yn yr un modd, byddwn yn hapus i gael unrhyw sylwadau a fo gennych ynghylch pa fath o ganllawiau y byddech yn dymuno eu cael, a chawn weld a yw'n rhywbeth y byddwn yn medru rhoi cymorth gydag ef. |
| 11 | A fyddwch chi fel yr Ombwdsmon, yn ystyried trosglwyddo ychwaneg o achosion o dorri'r Côd Ymddygiad i'r Pwyllgorau Safonau roddi sylw iddynt ar lefel leol? |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | **Howie Roberts (Cadeirydd) – Conwy**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Byddwn. Byddwn yn ystyried trosglwyddo mwy o achosion o dorri'r Côd Ymddygiad i Bwyllgorau Safonau ac, yn ystod cyfarfod yr oeddwn ynddo yn Abertawe yr wythnos diwethaf, roedd yna ddisgwyliad y byddai hynny'n digwydd. Fodd bynnag roedd yr ymateb yn wael gyda dim ond 4 achos yn destun ymchwiliad ar lefel leol hyd at Ebrill eleni. Ymddengys mai'r broblem yw nad yw Pwyllgorau Safonau ag awydd, fe ymddengys, i gynnal gwrandawiadau lleol. Nodir fodd bynnag fod y Pwyllgorau Safonau sy'n bresennol yn hapus i ddelio â mwy o faterion ar lefel leol a byddaf yn parhau i gyfeirio achosion lle mae'n briodol. |
| 12 | A oes gan yr Ombwdsmon unrhyw fwriad i egluro paragraff 10 (2) (b) yn y Côd Ymddygiad i Aelodau y of the Members' Code beyond that contained in the Guidance issued in September 2012 (tudalen 27). Yn y Canllawiau hynny, nodwyd y byddai'r Ombwdsmon ar y pryd yn adolygu'r Canllawiau yn wyneb unrhyw benderfyniadau a chyfraith achos yn y dyfodol ar effaith y ddarpariaeth hon.<br>**David Vaughan (Cadeirydd) – Parc Cenedlaethol Eryri**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn tynnu paragraff 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau pan fydd yn ailedrych ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013. |
| 13 | Fel arfer, gwneir cwyn yn erbyn aelod fel aelod o awdurdod penodol. O ganlyniad, byddai unrhyw waharddiad yn atal yr aelod hwnnw rhag gweithredu fel aelod o'r awdurdod hwnnw'n unig. Yn aml fodd bynnag, bydd yr aelod hefyd yn aelod o awdurdod perthnasol arall (e.e. cynghorydd sir sydd hefyd yn gynghorydd cymuned). Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae aelod yn cael ei wahardd am ymddygiad a ystyrir yn annerbyniol ar gyfer aelod o unrhyw awdurdod (e.e. ymddygiad sy'n dwyn anfri ar y swydd) ond mae ef/hi yn rhydd i barhau i weithredu fel aelod o awdurdod arall yn y cyfamser.<br>**Robert Dewey (Cadeirydd) – Sir y Fflint.**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Mae unrhyw waharddiad yn rhwystro Cynghorwyr rhag gweithredu yn yr awdurdod y gwaharddwyd nhw ohono, ond nid yw fel arfer yn gwahardd aelodau rhag gwasanaethu ar unrhyw Gyngor Cymuned y maent wedi eu penodi iddynt ac eithrio lle mae'r honiadau yn ddigon difrifol - yn y fath achosion mae modd ymestyn y gwaharddiad i Bwyllgorau ac awdurdodau eraill fel Cynghorau Cymuned. |
| 14 | Ydych chi'n meddwl bod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn syniad da?<br>**Howie Roberts (Cadeirydd)**<br><br>**OMBWDSMON:-**<br>Ydwyf. Rwy'n credu bod y Fforwm yn syniad da iawn oherwydd ei fod yn annog rhannu arbenigedd ac yn darparu cysondeb ar draws Gogledd Cymru. |

DRAFT

DRAFT